



Cofnodion

Senedd


22/02/2021

Agenda	Eitem	Nodiadau	Dadansoddiad Pleidleisio		
			O blaid	Yn erbyn	Ymatal
Croeso a Sylwadau Agoriadol	Rhoddodd Cadeirydd yr Undeb groeso i bawb a oedd yn bresennol yn y cyfarfod a hysbysodd yr aelodau ynglŷn â sut byddai'r cyfarfod yn gweithio.	Roedd 23 Aelod o'r Senedd yn bresennol a barnwyd bod cworwm ar gyfer y cyfarfod. Ni lwyddwyd i gyrraedd y cworwm ar gyfer ein Cyfarfod Mawr, felly cynhaliwyd cyfarfod Senedd yn ei le.			
	Ymddiheuriadau am Absenoldeb	Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Alexander Griffen.			
	Cymeradwyo cofnodion y Cyfarfod blaenorol	Cymeradwywyd yr holl nodiadau o'r cyfarfod			
	Materion yn codi o'r cofnodion	Doedd dim materion yn codi			
Adroddiad y Swyddogion	Darparodd Nate Pidcock (Llywydd) grynodedeb o Adroddiad y Swyddogion, sydd ar gael yn y papurau ar gyfer y cyfarfod.	Ni ddarllenodd Nate yr adroddiad, gan ei fod wedi'i anfon allan i'r holl aelodau ymlaen llaw ac mae ar gael i'w ddarllen ar y wefan. Tynnodd sylw at ymgyrch Cwrso Costau Cyrsiau, gweithredu Rhwyd Ddiogelwch ac ad-daliadau llety.			



SENEDD!

Senedd - Eich Syniadau	Trafodwyd y syniadau a gyflwynwyd i'r Senedd, ac yna cynhaliwyd pleidlais arnyn nhw.			
1	Beth mae'r swyddogion yn ei wneud?			
	Araith y cynigydd	Cyflwynodd Nate Pidcock y syniad i'r Senedd		
	Cwestiynau	Roedd y cwestiynau'n cynnwys a oedd angen mwy o graffu ar waith Swyddogion, sut y byddai'r broses hon yn wahanol i'r Parthau, ac o ble y byddai myfyrwyr yn cael eu recriwtio.		
	Estynnwyd gwahoddiad i siaradwyr eraill (o blaid ac yn erbyn)	<p>Pwyntiau yn erbyn:</p> <ul style="list-style-type: none">• Mae Parthau yn blatfform sy'n bodoli eisoes ar gyfer atebolrwydd Swyddogion• Gallai myfyrwyr ddangos rhagfarn tuag at Swyddog penodol• Gallai defnyddio arian fel cymhelliant i ymgysylltu annog y mathau anghywir o fyfyrwyr i ymwneud â'r undeb, a gallai gael ei wario'n well yn rhywle arall. <p>Pwyntiau o blaid:</p> <ul style="list-style-type: none">• Mae dal swyddogion i gyfrif yn bwysig• Mae atebolrwydd yn broblem gyda swyddogion llawn-amser yn UMABer		
Pleidlais	Nid yw'n pasio	35%	13%	52%
2	5 Swyddog?			
	Araith y cynigydd	Cyflwynodd Nate Pidcock y syniad i'r Senedd		
	Cwestiynau	Roedd y cwestiynau'n cynnwys pa rôl y gellid ei dileu, ble fyddai'r arian a arbedir ar gyflog Swyddogion yn cael ei wario, sut fyddai		



		adrannau'r UM yn ymdopi gyda llai o Swyddogion i'w cynorthwyo			
	Estynnwyd gwahoddiad i siaradwyr eraill (o blaid ac yn erbyn)	<p>Pwyntiau yn erbyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> Mae bod â Llywydd UMCA a diwylliant Cymru yn unigryw i UMaU yng Nghymru; byddai angen i adolygwyr allanol fod â dealltwriaeth gref o'r Iaith Cymraeg a Diwylliant Cymru. Byddai'n creu un cyfle yn llai i fyfyrwr Aber ddod yn Swyddog ac ehangu eu sgiliau a'u profiadau Mae'n bosib ymdopi â'r llwyth gwaith ar hyn o bryd Mae pryder y gallai rôl y Swyddog Llesiant gael ei dileu, sy'n bwysig i iechyd meddwl myfyrwyr <p>Pwyntiau o blaid:</p> <ul style="list-style-type: none"> Mae'n arfer da i gynnal adolygiadau a hyrwyddo newid cadarnhaol Mae yna botensial i ailddosbarthu rolau yn seiliedig ar ein myfyrwyr a'u hanghenion 			
	Pleidlais	Pasiwyd	67%	33%	0%
Unrhyw Fusnes Arall	<ul style="list-style-type: none"> Mae 24 awr ar ôl o hyd i sefyll yn Etholiadau'r Undeb... Nodyn i'ch atgoffa am Ŵyl y Celfyddydau yn digwydd yr wythnos sy'n dechrau'r 1^{af} Mawrth Cwestiynau ynghylch mynediad at argraffwyr ac ystyried ailagor lleoedd astudio yn y dref Cwestiynau am ymarferoldeb y rhwyd ddiogelwch bresennol Nodyn atgoffa fod Parthau'n dechrau yn ystod wythnos 1^{af} Mawrth a'r dyddiad cau nesaf ar gyfer syniadau. 				